# Arian newydd i Hen Goleg Aberystwyth

14/01/2020




Mae dyfodol Hen Goleg eiconig Prifysgol Aberystwyth yn sicrach heddiw a bydd yn datblygu i fod yn ganolfan ar gyfer diwylliant, treftadaeth, darganfyddiadau, dysgu a menter, gan obeithio denu 190,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

Mae’r Hen Goleg, un o adeiladau mwyaf rhyfeddol Gradd I Cymru, wedi cael bron i £10 miliwn (£9,732,300) o arian y Loteri Genedlaethol. Bydd yr arian yn helpu i’w adnewyddu a sicrhau ei ddyfodol yn y tymor hir.

Prynwyd yr hen Goleg yn wreiddiol gan Brifysgol Cymru am £10,000 yn unig yn 1867 gan ddefnyddio arian a gyfranwyd gan y gymuned leol.

> "Ar ddechrau degawd newydd, pa well newyddion na bod yr Hen Goleg ar fin dechrau bywyd newydd."
>
> *Y Farwnes Kay Andrews, Ymddiriedolwraig y DU a chadeirydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru*


Argraff arlunydd o fynediad newydd yr Hen Goleg

## 150 o flynyddoedd o addysg

Ers agor ei ddrysau i fyfyrwyr am y tro cyntaf yn 1872, chwaraeodd yr adeilad glan môr Gothig hwn ran hanfodol yn hanes addysgiadol Cymru a goroesiad iaith, diwylliant a hunaniaeth genedlaethol Cymru. Fodd bynnag, pan symudodd y Brifysgol i gampws newydd sbon yn y 1960au, roedd yr Hen Goleg fwy na heb yn ddiangen.



Sut allai'r Oriel Ddarganfod edrych

Mae hynny ar fin newid wrth iddo gael bywyd a phwrpas newydd. Y gobaith yw y bydd adfywiad yr adeilad wedi ei gwblhau erbyn 2022/23 wrth i'r Brifysgol ddathlu ei 150fed pen-blwydd.

Y Farwnes Kay Andrews, ymddiriedolwraig y DU a chadeirydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru oedd yn gyfrifol am wneud y cyhoeddiad mewn digwyddiad yn yr Hen Goleg heddiw: “Ar ddechrau degawd newydd, pa well newyddion na bod yr Hen Goleg – diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol – ar fin dechrau bywyd newydd.

Mae'n cael lle canolog eto nawr – ond y tro hwn, bydd wrth galon y gymuned gyfan – gan greu swyddi, a chynnig lletygarwch, helpu rhoi hwb i'r economi, creu sgiliau a chyfleoedd i'r gymuned, a bydd yn agor ei ddrws i bob math o ddarganfyddiadau a dysgu.”

## Ail greu adeilad i'r dyfodol

Bydd yr adeilad ar ei newydd wedd yn cynnwys:

- gofod arddangos ar gyfer arddangosfeydd
- canolfan i entrepreneuriaid a busnesau newydd
- stiwdios artistiaid
- caffi
- ystafelloedd cymunedol
- cyfleusterau ar gyfer digwyddiadau a gwyliau mawr.



How the Discovery Gallery could look

Bydd Talwrn Trafod newydd, y gyntaf o'i bath yn y DU, yn atyniad allweddol yn y gofod newydd ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau.

Bydd yr Hen Goleg yn gartref i Ganolfan Ddarganfod – Byd Gwybodaeth, fydd yn caniatáu i rywfaint o'r 30,000 gwrthrych sydd fel arfer dan glo i weld golau dydd. Bydd arddangosfeydd gwyddoniaeth yn cynnig dangosiadau rhyngweithiol o'r radd flaenaf fydd yn tynnu sylw at rôl y Brifysgol wrth archwilio'r gofod.

Bydd cyfleusterau i fyfyrwyr a chyfleusterau dysgu gydol oes ynghyd â sawl gofod ar gyfer pobl ifanc lleol i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau a gwirfoddoli.

## Creu swyddi a chyfleoedd

Bydd tua 900 o bobl yn elwa o hyfforddiant mewn treftadaeth, twristiaeth a lletygarwch.  Yn ogystal â chreu oddeutu 50 swydd newydd a 400 cyfle i wirfoddoli, yn ogystal â phrentisiaethau a phrofiad gwaith, bydd yr Hen Goleg ar ei newydd wedd hefyd yn annog graddedigion y brifysgol i aros yn y dref a sefydlu busnesau newydd.

Cyfanswm amcan gost yr ailddatblygiad yw tua £27m, ac mae'r Brifysgol yn ystyried ffynonellau eraill o gyllid i'r prosiect gan gynnwys ail gam ei hapêl codi arian.

Cyllid i Gymru

Dewch i weld mwy am yr hyn [ni wedi ariannu yng Nghymru](#) a chysylltwch gyda'ch syniadau chi am brosiect.




## ddordeb hefyd mewn ...





[Anrheg Nadolig gan y Loteri Genedlaethol yn helpu dathlu pen-blwydd eglwys]





[pu amgueddfeydd Cymru]

[Adfywio ‘mawndiroedd coll’ De Cymru]